Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



PSOW 19
Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)
Public Services Ombudsman (Wales) Bill
Ymateb gan: Comisiynydd y Gymraeg
Response from: Welsh Language Commissioner

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

John Griffiths
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

30/11/2017

Annwyl Gadeirydd,

**Ymgynghoriad ar y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)**

Mae Comisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) yn croesawu'r cyfle i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau fel rhan o'i ymgynghoriad ar y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) wrth graffu ar yr egwyddorion cyffredinol yng Nghyfnod 1.

Prif nod y Comisiynydd yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw at y ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Mae dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru;
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Dros amser fe fydd pwerau newydd i osod a gorfodi safonau ar sefydliadau yn dod i rym trwy is ddeddfwriaeth. Hyd nes y bydd hynny'n digwydd bydd y Comisiynydd yn parhau i arolygu cynlluniau iaith statudol trwy bwerau y mae wedi eu hetifeddu o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Crëwyd swydd y Comisiynydd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Mesur y Gymraeg). Caiff y Comisiynydd ymchwilio i fethiant i weithredu cynllun iaith, ymyrraeth â'r rhyddid i

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

ddefnyddio'r Gymraeg yng Nghymru ac, yn y dyfodol, i gwynion ynghylch methiant sefydliadau i gydymffurfio â safonau.

Un o flaenoriaethau'r Comisiynydd yw craffu ar ddatblygiadau polisi o ran y Gymraeg. Felly, prif rôl y Comisiynydd yw darparu sylwadau yn unol â'r cylch gorchwyl hwn gan weithredu fel eiriolwr annibynnol ar ran siaradwyr Cymraeg. Mae'r ymagwedd hon yn cael ei harddel er mwyn osgoi unrhyw gyfaddawd posibl ar swyddogaethau'r Comisiynydd ym maes rheoleiddio.

**Dyletswydd ar yr Ombwdsmon i ddefnyddio'r Gymraeg**
Mae rhan gyntaf yr ymateb hwn yn ystyried darpariaethau'r Bil mewn cysylltiad â sut bydd disgwyl i'r Ombwdsmon ddefnyddio'r Gymraeg wrth weithredu ei bwerau, dyletswyddau a swyddogaethau.

> Noda'r Comisiynydd ddarpariaethau adran 71 y Bil drafft sy'n gosod dyletswydd ar yr Ombwdsmon i baratoi a chyhoeddi strategaeth ar gyfer y Gymraeg o fewn cyfnod penodedig o amser. Mae cynnwys dyletswydd yn ymwneud â defnyddio'r Gymraeg o fewn y Bil drafft yn ddatblygiad newydd o'i gymharu â'r ddeddfwriaeth bresennol. Ymddengys bod rhyddid i'r Ombwdsmon ddod i farn ar sail hunan asesiad ar gynnwys strategaeth ac unrhyw gamau gofynnol. Yn codi o hynny barn y Comisiynydd yw y dylid diwygio'r adran er mwyn ymgorffori gofynion penodol ac eglur. Awgrymir y byddai'n rhesymol i ofynion o'r fath adlewyrchu cynnwys Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016 a gymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer sefydliadau cyfatebol i'r Ombwdsmon.
>
> Mae trywydd arall yn agored i'r Pwyllgor ei ystyried gan ei bod hefyd yn bosibl dwyn yr Ombwdsmon i mewn i fod yn ddarostyngedig i gyfundrefn Safonau'r Gymraeg. Mae'r Ombwdsmon yn cwympo o dan ddiffiniad Atodlen 6 Mesur y Gymraeg yn rhinwedd y ffaith ei fod yn berson sy'n arfer ar ran y Goron swyddogaethau a roddir gan ddeddf neu fesur. Byddai ychwanegu'r Ombwdsmon at Reoliadau sydd eisoes yn bodoli yn ddull ymarferol o gyflawni yr hyn a ddeisyfir yn amcanion adran 71 y Bil drafft. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried adran 71 y Bil drafft yng nghyswllt gohebiaeth atodedig rhwng y Comisiynydd a Gweinidogion Cymru [Amg].

**Cymhwysedd i ystyried cwynion yn ymwneud a'r Gymraeg ac ymchwilio iddynt**
Mae rhan hwn yr ymateb yn ystyried y Bil drafft ac unrhyw ystyriaethau'n ymwneud â chymhwysedd yr Ombwdsmon i ymchwilio i gwynion yn ymwneud â'r Gymraeg.

Mae cyfle wrth ddatblygu'r Bil hwn i ystyried pa bwerau sydd wedi bod ac a fydd yn

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

parhau'n weithredol gan yr Ombwdsmon yng nghyswllt materion yn ymwneud â'r Gymraeg ochr yn ochr gyda phwerau cyfredol Comisiynydd y Gymraeg yn sgil y cydsyniad roddwyd i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Gall gwneud hyn fod yn ddefnyddiol hefyd er mwyn sicrhau eglurder a dealltwriaeth y cyhoedd ynghylch unrhyw wahaniaethau sydd yn rôl yr Ombwdsmon a'r Comisiynydd wrth ymdrin â chwynion yn ymwneud â'r Gymraeg.

Gwelir fod Mesur y Gymraeg a'r Bil drafft fel ei gilydd yn caniatáu i'r Comisiynydd a'r Ombwdsmon weithio'n gyfochrog neu ar y cyd os yw "pwnc ymchwiliad" neu "fater" yn berthnasol i swyddogaethau'r ddau sefydliad[1]. Pe byddai'r Ombwdsmon a'r Comisiynydd yn penderfynu cydweithio ar achos penodedig nid oes unrhyw beth yn y Bil drafft a fyddai'n llesteirio hynny rhag digwydd.

Ailddeddfu yn ddwyieithog rannau helaeth o'r Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005 (deddf San Steffan) mae'r Bil drafft ac nid oes newid i'r sefyllfa yn y Bil drafft o safbwynt cymhwysedd yr Ombwdsmon i ystyried cwynion yn ymwneud â'r Gymraeg o'i gymharu â'r cymhwysedd fel y mae ar hyn o bryd - a dyna fyddai'r sefyllfa pe bai'r Bil yn dod yn Ddeddf heb ddiwygiadau pellach.

Hyd yn oed lle caiff yr Ombwdsmon ymchwilio i fater yn ymwneud â'r Gymraeg (naill ai'n annibynnol ar y Comisiynydd neu ar y cyd) rhaid cofio mai *atal anghyfiawnder a chaledi* yw ffocws gwaith Ombwdsmon, ac o ganlyniad mae'r unigolyn yn ganolog i'w waith tra mai *ffocws y Comisiynydd yw'r Gymraeg ar ei phen ei hun* a'r graddau y mae sefydliad wedi cadw at safonau'r Gymraeg. Mae natur wahanol y rhwymedïau sydd ar gael yn sgil dyfarniadau gan y Comisiynydd a'r Ombwdsmon yn adlewyrchu hynny. Mae adrannau 65 a 66 y Bil drafft yn rhagweld sefyllfaoedd lle gall fod materion y mae'r Ombwdsmon yn eu hystyried hefyd yn faterion y gall y Comisiynydd ac awdurdodau eraill eu hystyried. O safbwynt y Comisiynydd maent yn adrannau pwysig ar y ffurf bresennol sy'n caniatáu ffocws priodol i waith ymchwilio gan amryfal sefydliadau drwy waith *cyfochrog* neu *weithio ar y cyd.*

Diolch am y cyfle i gynnig sylwadau i ymchwiliad y Pwyllgor ar y Bil ddrafft. Pe byddai'r Pwyllgor am ragor o wybodaeth yn codi o'r ymateb hwn mae modd cyflwyno rhagor o wybodaeth ysgrifenedig am faterion cymhwysedd o dan y drefn safonau yn ogystal ag

[1] Gweler adrannau 64 i 66 Bil drafft Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) ac adrannau 20 – 21 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

enghreifftiau o'r amgylchiadau lle gall fod angen gweithio ar y cyd neu'n gyfochrog â'r Ombwdsmon.

Yr eiddoch yn gywir,

**Meri Huws**
Comisiynydd y Gymraeg

Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Alun Davies AC
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays
Caerdydd,
CF10 3NQ

21 Chwefror 2017

Annwyl Weinidog

**Ychwanegu sefydliadau i Reoliadau Safonau'r Gymraeg**

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 17 Hydref mewn perthynas ag amserlen creu rheoliadau safonau'r Gymraeg.

Bu cyfarfod rhwng ein swyddogion cyn toriad y Nadolig, ac fe drafodwyd y posibilrwydd o ychwanegu sefydliadau i reoliadau safonau drwy orchymyn. Mae cynsail i hyn eisoes drwy'r ffaith bod rheoliadau wedi gwneud safonau yn benodol gymwys i rai cyrff na chynhaliwyd ymchwiliadau safonau penodol iddynt (e.e. Prif Gwnstabl Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a Phrif Gwnstabl Heddlu Niwclear Sifil).

Gyda'r uchod mewn golwg, dyma gyflwyno rhestr o sefydliadau y dymunaf eu gwneud yn ddarostyngedig i orfod cydymffurfio â safonau (Atodiad 1). Mae'r rhestr yn cadarnhau fy nealltwriaeth ynghylch y cofnod(ion) priodol ar gyfer y sefydliadau o fewn Atodlenni'r Mesur, ynghyd â'r camau yr wyf fel Comisiynydd yn cynghori Gweinidogion Cymru i'w cymryd.

Hyderaf y bydd y dull hwn o weithredu yn cynorthwyo Gweinidogion Cymru i gyrraedd y nôd o gyflymu'r broses bresennol o osod safonau, ac y gallwn weld y sefydliadau yma'n ddarostyngedig i safonau yn fuan iawn.

Mae fy swyddogion yn fodlon iawn trafod cynnwys y rhestr hwn ymhellach gyda'ch swyddogion chi maes o law.

Yn gywir

**Meri Huws**
Comisiynydd y Gymraeg

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

**Atodiad 1**

| **Enw'r Person Perthnasol** | **Cofnod y daw'r Person o fewn Atodlenni'r Mesur** | **Argymhelliad** |
|---|---|---|
| Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol | Atodlen 5 (2) – Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac a gafodd eu sefydlu drwy ddeddfiad. | Pennwyd safonau gan Weinidogion Cymru, a hynny mewn perthynas â Chomisiynwyr eraill Cymru yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016.<br><br>Rwyf yn ystyried bod ystod y safonau cyflenwi gwasanaethau a bennwyd yn y rheoliadau hynny'n ddigonol ar gyfer swyddogaethau'r corff dan sylw.<br><br>Dylai Gweinidogion Cymru enwi'r person perthnasol yn uniongyrchol drwy orchymyn gan ddiwygio'r tabl yn Atodlen 6 y Mesur a gan wneud y safonau a bennwyd yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) yn benodol gymwys iddynt. |

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

| | | |
|---|---|---|
| Cymwysterau Cymru | Wedi eu henwi yn uniongyrchol yn Atodlen 6 ers Chwefror 2016 | Pennwyd safonau gan Weinidogion Cymru, a hynny mewn perthynas â chyrff sydd yn gyfrifol am swyddogaethau arolygu neu reoleiddio yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016.<br><br>Rwyf yn ystyried bod y safonau cyflenwi gwasanaethau, ynghyd â'r dosbarthiadau eraill sydd yn gymwysadwy i bersonau Atodlen 6 yn ddigonol ar gyfer swyddogaethau'r corff dan sylw.<br><br>Dylai Gweinidogion Cymru enwi'r person perthnasol drwy orchymyn gan wneud y safonau a bennwyd yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) yn benodol gymwys iddynt. |

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

| | | |
|---|---|---|
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Atodlen 6 – Personau sy'n arfer ar ran y Goron, swyddogaethau a roddir gan Ddeddf neu Fesur. | Pennwyd safonau gan Weinidogion Cymru, a hynny mewn perthynas â chyrff sydd yn gyfrifol am swyddogaethau tebyg yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016.<br><br>Rwyf yn ystyried bod y safonau cyflenwi gwasanaethau, ynghyd a'r dosbarthiadau eraill sydd yn gymwysadwy i bersonau Atodlen 6 yn ddigonol ar gyfer swyddogaethau'r corff dan sylw.<br><br>Dylai Gweinidogion Cymru enwi'r person perthnasol yn uniongyrchol drwy orchymyn gan ddiwygio'r tabl yn Atodlen 6 y Mesur a gan wneud y safonau a bennwyd yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) yn benodol gymwys iddynt. |
| Cyngor Defnyddwyr Dŵr | Wedi eu henwi yn uniongyrchol yn Atodlen 6 ers cymeradwyo'r Mesur | Pennwyd safonau gan Weinidogion Cymru, a hynny mewn perthynas â chyrff sy'n gyfrifol am swyddogaethau tebyg yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016.<br><br>Rwyf yn ystyried bod y safonau cyflenwi gwasanaethau, ynghyd â'r dosbarthiadau eraill sydd yn gymwysadwy i bersonau Atodlen 6 yn ddigonol ar gyfer swyddogaethau'r corff dan sylw.<br><br>Dylai Gweinidogion Cymru enwi'r person perthnasol drwy orchymyn gan wneud y |

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

| | | |
|---|---|---|
| | | safonau a bennwyd yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) yn benodol gymwys iddynt. |
| Y Cyngor Prydeinig | Wedi eu henwi yn uniongyrchol yn Atodlen 6 ers cymeradwyo'r Mesur | Rwyf yn ystyried bod y safonau cyflenwi gwasanaethau, ynghyd â'r dosbarthiadau eraill sydd yn gymwysadwy i bersonau Atodlen 6 yn ddigonol ar gyfer swyddogaethau'r corff dan sylw.<br><br>Dylai Gweinidogion Cymru enwi'r person perthnasol drwy orchymyn gan wneud y safonau a bennwyd yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) yn benodol gymwys iddynt. |
| Gwasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG | Atodlen 6 – Awdurdodau Iechyd Arbennig | Cyflwynwyd ymateb i'r ymgynghoriad ar reoliadau Iechyd drafft gennyf ar 14 Hydref 2016.<br><br>Yn unol a chynnwys yr ymateb hwnnw, dylai Gweinidogion Cymru sicrhau y caiff safonau eu gwneud yn benodol gymwys i'r holl bersonau a ddaw o fewn y cofnod 'Awdurdodau Iechyd Arbennig' yn Atodlen 6 y Mesur, gan gynnwys Gwasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG. |
| Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd | Atodlen 6 – Adrannau'r Llywodraeth | Nodaf eich bwriad i bennu Rheoliadau ar gyfer cyrff yr ystyrir yn 'Adrannau'r Llywodraeth' a 'Personau sy'n arfer ar ran y Goron'.<br><br>Mae'r corff hwn yn gorff cyhoeddus gweithredol anadrannol (Executive |

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

| | | |
|---|---|---|
| | | NDPB). Rwyf felly yn ystyried y gallai'r safonau o fewn y rheoliadau hynny fod yn rhai sy'n ddigonol ar gyfer swyddogaethau'r corff dan sylw ac rwyf felly'n agored i drafodaeth pellach i'r perwyl hwnnw. |
| Comisiynydd Traffig Cymru | Atodlen 5 (6) – Personau sy'n goruchwylio rheoleiddiad proffesiwn, diwydiant neu gylch cyffelyb o weithgaredd | Pennwyd safonau gan Weinidogion Cymru, a hynny mewn perthynas â Chomisiynwyr eraill Cymru yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016.<br><br>Rwyf yn ystyried bod ystod y safonau cyflenwi gwasanaethau a bennwyd yn y rheoliadau hynny'n ddigonol ar gyfer swyddogaethau'r corff dan sylw.<br><br>Ni fyddai'n briodol i Weinidogion Cymru bennu safonau mewn perthynas a chyflenwi gwasanaethau a chadw cofnodion yn unig, a hynny oherwydd bod y person yn dod o fewn un neu fwy o gofnodion Atodlen 5 y Mesur.<br><br>Dylai Gweinidogion Cymru enwi'r person perthnasol yn uniongyrchol drwy orchymyn gan ddiwygio'r tabl yn Atodlen 6 y Mesur a gan wneud y safonau a bennwyd yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) yn benodol gymwys iddynt. |
| Coleg Plismona Cenedlaethol | Atodlen 5 (5) - Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn | Mewn gorchymyn diweddar, fe hepgorwyd cofnod yr Asiantaeth Genedlaethol er |

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

| | | |
|---|---|---|
| | cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol | Gwella Plismona o Atodlen 6 y Mesur.<br><br>Mae'r Coleg Plismona Cenedlaethol bellach wedi cymryd cyfrifoldeb dros nifer o swyddogaethau'r corff blaenorol. Pennwyd safonau gan Weinidogion Cymru, a hynny mewn perthynas â phrif gwnstabliaid ac awdurdodau'r heddlu sy'n gweithredu yng Nghymru a chyrff cysylltiedig yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) 2016<br><br>Rwyf yn ystyried bod y safonau cyflenwi gwasanaethau, ynghyd â'r dosbarthiadau eraill sydd yn gymwysadwy i bersonau Atodlen 6 yn ddigonol ar gyfer swyddogaethau'r corff dan sylw.<br><br>Dylai Gweinidogion Cymru enwi'r person perthnasol drwy orchymyn yn uniongyrchol gan ddiwygio'r tabl yn Atodlen 6 y Mesur a gan wneud y safonau a bennwyd yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) yn benodol gymwys iddynt. |

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

| | | |
|---|---|---|
| Comisiwn Ffiniau i Gymru | Atodlen 6 – Personau sy'n arfer, ar ran y Goron, swyddogaethau a roddir gan neu o dan Ddeddf neu Fesur | Pennwyd safonau gan Weinidogion Cymru, a hynny mewn perthynas â Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016.<br><br>Rwyf yn ystyried bod y safonau cyflenwi gwasanaethau, ynghyd â'r dosbarthiadau eraill sydd yn gymwysadwy i bersonau Atodlen 6 yn ddigonol ar gyfer swyddogaethau'r corff dan sylw.<br><br>Dylai Gweinidogion Cymru enwi'r person perthnasol yn uniongyrchol drwy orchymyn gan ddiwygio'r tabl yn Atodlen 6 y Mesur a gan wneud y safonau a bennwyd yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) yn benodol gymwys iddynt. |
| Transport Focus | Wedi eu henwi yn uniongyrchol yn Atodlen 6 ers Chwefror 2016 (disodli cofnod Ffocws ar Deithwyr) | Pennwyd safonau gan Weinidogion Cymru, a hynny mewn perthynas â chyrff sy'n gyfrifol am swyddogaethau tebyg yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016.<br><br>Rwyf yn ystyried y gall y safonau cyflenwi gwasanaethau, ynghyd â'r dosbarthiadau eraill sydd yn gymwysadwy i bersonau Atodlen 6 fod yn ddigonol ar gyfer swyddogaethau'r corff dan sylw ac rwyf felly'n agored i drafodaeth pellach i'r perwyl hwnnw. |
| Coleg Cymraeg Cenedlaethol | Atodlen 5 (5) - Personau sy'n darparu gwasanaethau | Pennwyd safonau gan Weinidogion Cymru, a |

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

| | | |
|---|---|---|
| | i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol | hynny mewn perthynas â chyrff sydd yn darparu gwasanaethau i fyfyrwyr yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017.<br><br>Rwyf yn ystyried bod y safonau cyflenwi gwasanaethau, ynghyd â'r dosbarthiadau eraill sydd yn gymwysadwy i bersonau Atodlen 6 yn ddigonol ar gyfer swyddogaethau'r corff dan sylw.<br><br>Dylai Gweinidogion Cymru enwi'r person perthnasol yn uniongyrchol drwy orchymyn gan ddiwygio'r tabl yn Atodlen 6 y Mesur a gan wneud y safonau a bennwyd yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) yn benodol gymwys iddynt. |
| Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol | Atodlen 5 (5) - Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol | Pennwyd safonau gan Weinidogion Cymru, a hynny mewn perthynas â chyrff sy'n gyfrifol am swyddogaethau tebyg yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016.<br><br>Rwyf yn ystyried bod y safonau cyflenwi gwasanaethau, ynghyd â'r dosbarthiadau eraill sydd yn gymwysadwy i bersonau Atodlen 6 yn ddigonol ar gyfer swyddogaethau'r corff dan sylw.<br><br>Dylai Gweinidogion Cymru enwi'r person perthnasol yn uniongyrchol drwy orchymyn gan ddiwygio'r tabl yn Atodlen 6 y Mesur a gan |

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

| | | |
|---|---|---|
| | | wneud y safonau a bennwyd yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) yn benodol gymwys iddynt. |

**Alun Davies AC/AM**
**Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes**
**Minister for Lifelong Learning and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref ARD/00147/17

Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg

Cerian.Davies@cyg-wlc.cymru

8 Mawrth 2017

Annwyl Meri,

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 21 Chwefror ynglŷn ag ychwanegu cyrff i Reoliadau Safonau'r Gymraeg sydd eisoes wedi'u gwneud.

Rwy'n cytuno bod ychwanegu cyrff i Reoliadau sydd eisoes wedi eu gwneud yn ymddangos fel dull ymarferol i ddod a mwy o gyrff o dan y drefn safonau, yn enwedig gan ein bod bellach mewn sefyllfa lle mae pump set o Reoliadau safonau yn eu lle sydd rhyngddynt yn pennu ystod o safonau i gyrff o wahanol sectorau. Wrth gwrs, bydd angen ystyried hyn fesul corff. Mae eich cynnig o hepgor yr ymchwiliad safonau cychwynnol ar gyfer y cyrff a nodwyd yn eich llythyr yn ymddangos yn synhwyrol i mi, gan y byddwch maes o law yn ymgynghori gyda'r cyrff ar hysbysiadau cydymffurfio drafft.

Mae gwaith eisoes ar y gweill i lunio gorchymyn i ychwanegu mwy o gyrff i Atodlen 6 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, gyda'r nod o gyflwyno'r Gorchymyn hwnnw yn hwyrach eleni pan fyddaf yn dod a'r set nesaf o Reoliadau safonau gerbron y Cynulliad. Mae rhai o'r cyrff a nodwyd yn eich llythyr eisoes yn rhan o'r broses honno ac eraill wedi eu cynnwys yn Atodlen 6 yn barod. Byddaf nawr yn ystyried priodoldeb cynnwys gweddill y cyrff yn eich llythyr yn yr un Gorchymyn (ac felly yn Atodlen 6). Bydd angen set o Reoliadau newydd i wneud y safonau sydd eisoes wedi eu pennu mewn Rheoliadau yn benodol gymwys i'r cyrff yma. Bydd y Gorchymyn a'r Rheoliadau yn destun pleidlais yn y Cynulliad.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru
Correspondence.Alun.Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf yn ddiolchgar i chi am argymell pa set o Reoliadau fyddai mwyaf priodol i'r cyrff rydych yn awyddus i'w ychwanegu i'r drefn safonau. Rwyf wedi gofyn i fy swyddogion i ystyried eich argymhellion.

Cofion

Alun

**Alun Davies AC/AM**
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Minister for Lifelong Learning and Welsh Language